Rachie

I bob un sydd ffyddlon
Dan ei faner Ef,
Mae gan Iesu goron
Fry yn Nheyrnas Nef

Lluoedd Duw a Satan,
Sydd yn cwrdd yn awr.
Mae gan blant eu cyfran
Yn y rhyfel mawr.

Chorus

Awn i gwrdd y gelyn,
Bawb ag arfau glân;
Uffern sydd i'n herbyn
A'i phicellau tân.

Gwasgwn yn y rhengau,
Ac edrychwn fry;
Concrwr byd ac angau
Acw sydd o'n tu!

Chorus

Haleliwia, Haleliwia
Moliant iddo byth amen
Haleliwia, Haleliwia
Moliant iddo byth amen